

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd

8fed Adroddiad Monitro Blynyddol 2024

Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd am y cyfnod

1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2023

Cynnwys

	Tudalen
1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyflwyniad	8
3. Newidiadau Cyd-destunol	13
4. Proses Fonitro'r CDLI	25
5. Dadansoddiad Polisi Monitro'r CDLI	29
• Canlyniad	
• Dadansoddiad	
• Argymhellion	
6. Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd	289
7. Casgliadau	315
Atodiad 1: Tabl yn nodi crynodeb o'r canfyddiadau	320

1. Crynodeb Gweithredol

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Caerdydd ar 28 Ionawr 2016. Fel rhan o'r broses cynllunio datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB).

Mae'r AMB yn rhoi'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y CDLI ac yn y pen draw yn penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr awdurdod ac yn helpu i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.

Dyma'r wythfed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Cyhoeddwyd yr AMB cyntaf, yr ail a'r trydydd ar 31 Hydref 2017, 31 Hydref 2018 a 31 Hydref 2019. Oherwydd pandemig Covid, nid oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno a chyhoeddi AMB erbyn 31 Hydref 2020 ac ni chyhoeddwyd pedwerydd AMB o'r herwydd. Fodd bynnag, roedd data'n dal i gael ei gasglu lle bo hynny'n bosibl ac fe'i cynhwysir yn y gyfres amser a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd y pumed AMB ar 31 Hydref 2021, y chweched AMB ar 31 Hydref 2022 a'r seithfed ar 31 Hydref 2023. Mae'r data yma dros y saith mlynedd diwethaf yn cynnig dadansoddiad cymharol sy'n galluogi'r Cyngor i ddangos tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Canfyddiadau Allweddol yr 8ed Broses Fonitro 2023-2024

Gwybodaeth Gyd-destunol

Ceir crynodeb o'r deunydd cyd-destunol perthnasol sydd wedi'i gyhoeddi ers mabwysiadu'r Cynllun ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol yn Adran 3. Bydd goblygiadau rhai o'r newidiadau cyd-destunol yn digwydd dros y tymor hwy a bydd AMBau dilynol yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeunydd cyd-destunol perthnasol ac yn rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddiad Polisi

Mae Adran 5 yn asesu sut mae polisïau strategol y Cynllun a pholisïau ategol cysylltiedig yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i lunio barn ar sail gwybodaeth am gynnydd y Cynllun o ran cyflawni'r targedau/monitro canlyniadau a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg gweledol o effeithiolrwydd polisïau yn ystod y cyfnod monitro yn seiliedig ar y sgôr goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad:

Parhau i Fonitro (Gwyrdd)	
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac nid oes achos i adolygu.	
Angen Hyfforddiant (Glas)	
Pan fo dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd a bod angen rhagor o hyfforddiant ar swyddogion neu aelodau.	
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Porffor)	
Gall dangosyddion awgrymu bod angen darparu canllawiau pellach yn ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes yn y Cynllun.	
Ymchwil Bellach (Melyn)	
Pan fo dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisiâu'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, bydd angen cynnal ymchwiliadau ac archwiliadau pellach i hyn.	
Adolygu Polisi (Oren)	
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod Polisiâu'r CDLI yn methu â rhoi'r strategaeth ar waith, bydd angen cynnal adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Gallai fod angen cynnal ymchwiliadau ac archwiliadau pellach cyn cadarnhau penderfyniad i gynnal adolygiad ffurfiol.	
Adolygu'r Cynllun (Coch)	
Pan fo dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu, a bod angen adolygu'r Cynllun yn ffurfiol. Bydd angen ystyried yr opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun yn llawn ar ôl ystyriaeth ddifrifol.	

Prif Ganfyddiadau

Dyma'r 8^{fed} AMB i'w baratoi ac mae'n darparu cymhariaeth â'r gwaelodlin data a ddarperir gan yr AMB 1^{af}, 2^{il}, 3^{ydd}, 5^{ed}, 6^{ed} a 7^{fed} a gyhoeddwyd yn 2017, 2018, 2019, 2021, 2022 a 2023. Fel yr amlinellir uchod, mae hefyd yn cynnwys data ar gyfer y bedwaredd flwyddyn o fonitro yn 2020 lle'r oedd hwnnw ar gael.

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r wythfed AMB yn gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion a ddangosir yn wyrdd sy'n dangos bod y rhan fwyaf o bolisiau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Ceir crynodeb o berfformiad yn erbyn prif bynciau'r Cynllun isod gydag Atodiad 1 yn nodi'r data a'r casgliadau mewn mwy o fanylder.

Cyflogaeth – Mae data monitro'n dangos perfformiad cadarnhaol parhaus. Yn arbennig o bwysig y mae data sy'n cyfeirio at greu swyddi net - Mae'n ofynnol cael 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2006-2026. Crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015 ac felly'r targed ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun yw 19,100 o swyddi neu 1,750 o swyddi bob blwyddyn. Ers yr AMB cyntaf (16/17) mae nifer y swyddi wedi dangos cynnydd net ac mae'r AMB diweddaraf yn dangos cynnydd o 18,000 o swyddi dros yr 8 mlynedd diwethaf.

Tai - Mae data monitro'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran darparu cartrefi newydd ar lawer o safleoedd tai strategol y CDLI gyda chyfanswm o 4,029 o gartrefi newydd wedi'u darparu hyd yma. Yn benodol, gwelwyd cwblhau cartrefi newydd ar 5 o'r safleoedd tai strategol:

- Cwblhawyd 933 o gartrefi o fewn Ardal Fenter Canol Caerdydd;
- Cwblhawyd 1,044 o gartrefi ar safle strategol Gogledd-orllewin Caerdydd;
- Cwblhawyd 395 ar y safle strategol i'r gogledd o C33.
- Cofnodwyd fod 484 wedi eu cwblhau ar safle strategol Gogledd-ddwyrain Caerdydd; a
- Mae 1,173 wedi eu cwblhau yn natblygiad St Ederyns Village;

Er bod cyfraddau cwblhau'r rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol yn is na'r targedau a nodir yn yr AMB, mae bellach yn amlwg o'r data uchod bod y dull a arweinir gan Gynllun bellach yn dechrau gyrru'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd yn llwyddiannus ar lefel nas gwelwyd am y 10 mlynedd diwethaf. Er enghraifft, mae'r 6 blynedd diwethaf (2018 i 2024) wedi gweld cwblhau 1,275 ar gyfartaledd o'i gymharu â'r 9 mlynedd blaenorol (2008 i 2017) pan gwblhawyd 725 o unedau'r flwyddyn ar gyfartaledd, heb yr un un flwyddyn uwchlaw 1,000 o unedau ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r data ar ddarparu tai yn dangos yr 'oedi' rhwng mabwysiadu'r Cynllun a chartrefi yn cael eu cwblhau ar safleoedd newydd a ddyrannwyd yn y Cynllun. Oherwydd cyfuniad o baratoi safle, ffactorau cyfreithiol a logistaidd a brofir gan dirfeddianwyr/datblygwyr ynghyd â'r amser sydd ei angen i sicrhau'r caniatâd cynllunio a mabwysiadu angenrheidiol, mae'r taflwybrau cyflawni yn arafach na'r disgwyliad gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr amser a dreulir yn sicrhau'r Cytundebau Adran 106 cysylltiedig sy'n cyflawni dyheadau'r Cyngor yn llawn fel y nodir yn y CDLI. Yn gyffredinol, dros y 18 mlynedd rhwng 2006 a 2024 adeiladwyd cyfanswm o 22,724 o anheddau newydd yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli 55% o'r gofyniad annedd cyffredinol.

Tai Fforddiadwy – Mae'r cynllun yn gosod targed ar gyfer codi 6,646 o unedau fforddiadwy i'w darparu yn y 12 mlynedd rhwng 2014 a 2026 ac mae data monitro yn dangos bod niferoedd y tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau yn cynyddu wrth i ystod a dewis o safleoedd tai newydd ddechrau dod ger bron. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 2,503 o anheddau fforddiadwy newydd wedi'u cwblhau ers 2014, sy'n cynrychioli 38% o darged y cynllun i ddarparu 6,646 o unedau fforddiadwy erbyn 2026.

Disgwylir i'r duedd hon barhau wrth i'r gwaith adeiladu ar y safleoedd tai strategol maes glas gyflymu dros y 2 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun.

Trafnidiaeth – 52% oedd cyfran y teithio cynaliadwy at ddibenion pob taith dros y cyfnod monitro. Cofnodwyd cynnydd mewn teithio cynaliadwy at ddibenion teithio 'gwaith' a 'siopa' a wrthbwyswyd gan ostyngiad mewn teithio cynaliadwy at ddibenion teithio 'addysg' a 'hamdden'.

Mae crynodeb o'r gyfran o'r holl ddibenion teithio a wneir drwy wahanol ddulliau teithio dros y cyfnod monitro wedi'i gynnwys isod:

- Gostyngodd cerdded ychydig dros y cyfnod monitro i 25% ond ar hyn o bryd mae lefelau cerdded yn gyffredinol yn uwch na'r llynedd, ond hefyd yn uwch nag yn ystod, neu cyn y pandemig.
- Cynyddodd beicio ychydig dros y cyfnod monitro i 7% ac mae lefelau beicio yn parhau i fod yn uwch o'u cymharu â chyn y pandemig.
- Mae'r defnydd o fysiau wedi gostwng dros y cyfnod monitro at ddibenion pob taith heblaw 'siopa' ond mae lefelau teithwyr bysiau wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf er eu bod yn parhau i fod yn isel o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig.
- Gostyngodd y defnydd o reilffyrdd ychydig dros y cyfnod monitro i 11% ond mae lefelau teithwyr rheilffyrdd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, er eu bod yn parhau'n isel o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig

Cynyddodd lefelau traffig 2% rhwng 2022 a 2023 ond maent yn dal ychydig yn is na'r lefelau cyn y pandemig. O gymharu data a gyhoeddwyd ar symudedd rhwng 2019 a 2023, mae cymudo yn parhau ar tua 64% (h.y. sy'n cyfateb i 36% o'r gweithlu yn parhau i weithio gartref o'i gymharu â 8% yn 2019).

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr - mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi safleoedd i ddiwallu'r angen amlwg am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a safleoedd tramwy. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau canlyniadau priodol. O ran safleoedd tramwy, ystyrir mai'r ffordd orau o ystyried y rhain fyddai ar sail ranbarthol, gan ofyn am gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos drwy broses baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol arfaethedig

Canllawiau Cynllunio Atodol – Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cynhyrchu rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) newydd ac ers mabwysiadu'r CDLI mae 18 CCA wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor i gefnogi'r polisïau yn y Cynllun mabwysiedig.

Newidiadau Cyd-destunol – mae'r adolygiad cyd-destunol yn amlygu newidiadau sylweddol yn y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi esblygu'n sylweddol dros y pum cyfnod monitro diwethaf. Yn benodol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018, PCC, Rhifyn 11, Chwefror 2021) a PCC, Rhifyn 12, Chwefror 2024) a chyhoeddi Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021) wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith polisi lefel uchel.

Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)

Mae Adran 6 yr AMB yn ymhelaethu ar yr asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AC. Mae hyn yn rhoi cymhariaeth â'r data gwaelodlin a roddwyd gan y 7ed AMB blaenorol a gyhoeddwyd yn 2023.

Casgliadau

Mae'r 8fed AMB yn cynnig cymhariaeth â'r data gwaelodlin a roddwyd gan yr AMB cyntaf, 2^{il}, 3^{ydd}, 5^{ed}, 6^{ed} a 7^{fed} a gyhoeddwyd yn 2017, 2018, 2019, 2021, 2022 a 2023 ynghyd â data a gasglwyd ar gyfer y bedwaredd flwyddyn lle'r oedd hwn ar gael. Y casgliadau allweddol yn yr wythfed blwyddyn o adrodd, yw bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gyffredinol o ran cyflawni'r targedau a nodwyd a monitro'r canlyniadau a gellir defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio'r gwaith parhaus o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

2. Cyflwyniad

Mae proses yr Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB) yn rhoi'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac yn helpu i lywio a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac yn helpu i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.

Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Mae'n darparu'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a llunio polisïau, gweithredu a gwerthuso polisi ac adolygu'r cynllun.

Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd

O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a'r Rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol (ACLLau) gynhyrchu CDLI. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn ffurfiol ar 28 Ionawr 2016. Mae'r CDLI yn darparu'r fframwaith defnydd tir sy'n sail i'r penderfyniadau ynghylch datblygu yn y ddinas yn y dyfodol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio.

Dyma'r 8fed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLI gael ei adolygu bob 4 blynedd a chytunwyd ar amserlen i adolygu'r cynllun gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Lansiwyd y gwaith ffurfiol o baratoi'r CDLI Newydd ym mis Mai 2021 gydag ymgynghoriad ar Weledigaeth ddrafft, materion ac amcanion ac Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig drafft ynghyd â Galwad am Safleoedd Ymgeisiol. Dilynwyd hyn gan ymgynghoriad ar dwf strategol ac opsiynau gofodol yng ngaeaf 2021/22. Cytunwyd ar amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi'r cynllun newydd gyda Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023 a dechreuodd ymgynghoriad 10 wythnos ar y Strategaeth a Ffebrir rhwng 27 Gorffennaf a 5 Hydref 2023. Mae gwaith ar baratoi'r Cynllun Adnewo ar y gweill ar hyn o bryd a disgwylir i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried hyn yn ddiweddarach yn 2024 gyda'r ymgynghoriad wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2025.

Y Gofyniad i Fonitro

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor, o dan adran 61 Deddf 2004, i barhau i adolygu'r holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Yn ogystal, o dan adran 76 y Ddeddf, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu gwybodaeth am y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynnyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru

ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Felly, mae paratoi AMB yn rhan annatod o broses y cynllun datblygu statudol.

Er mwyn monitro perfformiad CDLI yn gyson, dylid ystyried cynlluniau yn erbyn set safonol o ddangosyddion a thargedau monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar gynnwys gofynnol AMBau.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) wedi'u diwygio i symleiddio rhai agweddau ar weithdrefnau'r cynllun datblygu lleol; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn effeithio ar broses fonitro'r CDLI. O dan Reoliad 37 mae'n

ofynnol i AMB:

- Nodi polisiâu nad ydynt yn cael eu gweithredu;

Ac ar gyfer pob polisi:

- Nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
- Nodi'r camau (os o gwbl) y bwriedir eu cymryd i alluogi'r polisi i
- gael ei weithredu;
- Archwilio a oes angen adolygu'r cynllun i ddisodli neu ddiwygio'r polisi.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r AMB fonitro dangosyddion craidd a nodwyd drwy fanylu ar:

- Taflwybr darpariaeth tai yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun, a;
- Nifer (o so gwbl) yr anheddau fforddiadwy a marchnad agored ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.

Mae'r rhain ar gyfer blwyddyn yr AMB ac am y cyfnod llawn ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu.

Mae Dangosyddion Allbwn Craidd eraill ar gyfer CDLIau yn cynnwys:

- Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.
- Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.
- Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfa a hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir y tu allan i ffiniau sefydledig canolfannau tref ac ardal.
- Hyd a lled yr agregau crai o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi ei fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Nodyn Canllaw Technegol Mwynau - NCTM [MTAN]).

Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 3, Mawrth 2020)

Mae'r Llawlyfr yn nodi y dylai'r AMB asesu i ba raddau y mae strategaeth a pholisïau, safleoedd a gofynion seilwaith allweddol y cynllun yn cael eu cyflawni. Bydd pob AMB yn seiliedig ar ganlyniadau a sylwebaeth y flwyddyn flaenorol. Bydd hyn yn galluogi

tueddiadau i ddod yn amlwg, gyda sylwebaeth a dadansoddiadau wedi'u mireinio ymhellach. Yna bydd yn glir sut mae polisïau a chynigion yn cyflawni o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Llawlyfr yn nodi nad yw'n realistig nac yn angenrheidiol i'r holl bolisïau gael eu monitro. Byddai hyn yn arwain at ddogfen ddiangen o fawr a chymhleth. Bydd angen cynnwys rhai meysydd allweddol yn gyson bob blwyddyn, mater i'r ACLI fydd penderfynu hynny ar sail yr elfennau sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y cynllun.

Mae'r Llawlyfr CDLI yn nodi mai agweddau defnyddiol i'w cynnwys mewn AMB yw:

- Nodi canfyddiadau a chasgliadau allweddol ynghlwm â chyflawni'r strategaeth, gan nodi casgliadau clir ynghylch a oes angen adolygiad o'r cynllun ar ffurf Crynodeb Gweithredol.
- Dadansoddiad o newid cyd-destunol / dangosyddion sylweddol h.y., crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach y mae'r CDLI yn gweithredu o'u mewn, h.y., strategaethau/polisïau allanol.
- Dadansoddiad o ddangosyddion craidd/allweddol h.y. asesiad clir ynghylch a yw'r cynllun yn cyflawni'r strategaeth, gan gynnwys ei brif amcanion a gweithredu'r lefelau twf gofynnol (e.e. targedau datblygu tai, darparu safleoedd, tai fforddiadwy, a seilwaith). Yn hyn o beth, rhaid i'r AMB gynnwys diweddariad taflwybr tai ynghyd â sylwebaeth a dadansoddiad cysylltiedig.
- Dadansoddiad o ddangosyddion lleol h.y. asesiad o bolisïau nad ydynt yn profi'n effeithiol a sut yr eir i'r afael â'r materion hyn.
- Canlyniadau dangosyddion yr Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r asesiad integredig.
- Casgliad ac argymhellion sy'n nodi newidiadau i'r cynllun sy'n ofynnol adeg y cyfnod adolygu statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw'n briodol.

Mae'r Llawlyfr yn nodi y dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath bob blwyddyn er mwyn darparu dadansoddiad hawdd rhwng adroddiadau dilynol ac adeiladu ar ganlyniadau blaenorol. Gall defnyddio deunyddiau darluniadol fel siartiau a graffiau wneud yr AMB yn fwy hygyrch i randdeiliaid, grwpiau busnes a'r gymuned.

Mae'r Llawlyfr yn nodi y dylai'r canlyniadau monitro nodi'n glir a yw (a sut mae) y strategaeth yn gweithio ac os yw dyraniadau allweddol yn cael eu cyflawni fel y rhagwelwyd dros gyfnod y cynllun. Bydd y canlyniadau hefyd yn nodi unrhyw heriau, cyfleoedd a ffyrdd posibl ymlaen ar gyfer diwygio polisïau a chynigion ar adeg adolygu'r cynllun.

Fframwaith Monitro CDLI Caerdydd

Darperir Fframwaith Monitro ym Mhennod Chwec ac Atodiad 9 y CDLI sy'n cynnwys cyfres o 5 dangosydd cyd-destunol a 102 o ddangosyddion craidd a lleol, gyda thargedau a sbardunau cyfatebol ar gyfer gweithredu pellach, ynghlwm â pholisïau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r cysylltiadau rhwng amcanion y Cynllun, polisïau strategol a pholisïau eraill y Cynllun. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â'r Rheoliadau uchod gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau ar fonitro. Y Fframwaith Monitro yw sail yr AMB.

Y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd 2011)

Ar ben hynny, rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwyddbau a Rheoliadau Ewropeaidd perthnasol. Mae'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Terfynol, Ionawr 2016 yn nodi cyfres arall o ddangosyddion (26) a ddefnyddir i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er eu bod wedi'u cydgysylltu, mae'r rhain wedi'u nodi ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi'r CDLI ac fe'u defnyddiwyd yn yr AMB i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI.

Felly, mae paratoi'r AMB yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd 2011).

Fformat a Chynnwys yr AMB

Mae'r AMB wedi'i gynllunio i fod yn ddogfen gryno a hygyrch y gellir ei defnyddio fel pwynt cyfeirio cyfleus ar gyfer pob maes polisi strategol.

Mae strwythur yr AMB fel a ganlyn:

Adran 1 Crynodeb Gweithredol - Yn rhoi crynodeb ysgrifenedig cryno o'r canfyddiadau monitro allweddol.

Adran 2 Cyflwyniad - yn amlinellu gofyniad, diben a strwythur yr AMB.

Adran 3 Gwybodaeth Gyd-destunol - yn rhoi trosolwg o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai, er ei bod y tu allan i gylch gwaith y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i bolisi yn yr adran dadansoddi polisi berthnasol, gan gynnwys newidiadau i'r fframwaith polisi ar lefel genedlaethol neu leol.

Adran 4 Proses Fonitro'r CDLI - Yn esbonio'r prosesau monitro a gynhaliwyd.

Adran 5 Monitro CDLI - Dadansoddi Polisi - Adroddiadau ar y 107 o ddangosyddion monitro'r CDLI y cytunwyd arnynt yn ystod proses archwilio'r CDLI ac a nodir yn Adroddiad yr Arolygwyr.

Adran 6 Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd - Yn darparu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn y 28 o ddangosyddion monitro'r AC.

Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion – Yn nodi trosolwg cyffredinol o'r holl ddangosyddion a pherfformiad y Cynllun yn y flwyddyn gyntaf ar ôl mabwysiadu.

Cyhoeddi – Bydd yr AMB yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Monitro yn y Dyfodol

Dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn rhoi dadansoddiad hwylus rhwng adroddiadau dilynol. Yn ogystal, o ystyried bod y broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol sy'n dod o'r Cyngor a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffordd y cyflwynir y ffynonellau gwybodaeth allanol wneud dangosyddion penodol yn aneffeithiol neu'n rhy hen. Yn unol â hynny, gall y fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a defnyddir AMBau fel ffordd o nodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

3. Newidiadau Cyd-destunol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd cyd-destunol perthnasol sydd wedi'i gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol newydd a/neu ddiwygiedig a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl i'r CDLI yn ei gyfanrwydd lle bo hynny'n briodol. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLI hefyd wedi'u nodi, ynghyd â chynnydd ar ganllawiau cynllunio atodol allweddol.

Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLI yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi er hwylustod ac felly ni chaiff ei hailadrodd yma.

Newidiadau Deddfwriaethol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016. Mae'n nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r dull cynllunio a arweinir gan gynllun. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau). Mae'r FfDC yn gynllun defnydd tir cenedlaethol a fydd yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru o ran datblygu a defnyddio tir yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gynhyrchu yn 2018/9 pan fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bwriedir i CDSau fynd i'r afael â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol fel tai, cyflogaeth a gwastraff a rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at dair ardal gynllunio strategol gan gynnwys de-ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd Caerdydd yn rhan o'r ardal gynllunio strategol hon, yn unol â'r cynigion arfaethedig ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd gan CDLIau rôl sylfaenol o hyd yn y system a arweinir gan gynllun. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i CDLIau fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC ac unrhyw CDS sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran ohoni.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Cynhaliwyd diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mewn ymateb i ganlyniad Ymarfer Mireinio'r CDLI a'u nod yw symleiddio rhai agweddau ar broses y cynllun datblygu lleol.

Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn:

- Dileu'r gofyniad statudol i hysbysebu camau ymgynghori yn y wasg leol;
- Caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud diwygiadau i'r cynllun datblygu lleol lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i warantu'r weithdrefn lawn, heb fynd drwy'r broses adolygu lawn;
- Dileu'r angen i alw am safleoedd amgen ac ymgynghori arnynt yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo; a

- Gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Daeth y Rheoliadau CDLI diwygiedig i rym ar 28 Awst 2015 ac ynghyd â'r polisïau a'r canllawiau cysylltiedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Llawlyfr CDLI diwygiedig, eu nod yw gwneud proses y CDLI yn fwy effeithlon ac effeithiol (h.y. galluogi paratoi ac adolygu cynlluniau'n gyflymach heb ragnodi'n ddiangen). Nid oes gan y Rheoliadau diwygiedig unrhyw oblygiadau i'r CDLI presennol ond bydd angen eu hystyried o ran unrhyw adolygiad ar Gynllun a rhoddir ystyriaeth bellach iddynt yn ôl yr angen.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru ynghlwm â nifer o nodau llesiant gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a defnyddio adnoddau cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol a fydd yn disodli Cynlluniau Integredig Sengl. O ystyried mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol graidd y CDLI Newydd (a'r AAS); mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLI Newydd a'r Ddeddf/Cynlluniau Llesiant Lleol. Yn wir, ystyrir y bydd sylfaen dystiolaeth y CDLI, AAS/AC ac AMB yn llywio Cynllun Llesiant Lleol y Cyngor. Wrth symud ymlaen, bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn parhau i lywio unrhyw adolygiad o'r Cynllun.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cafodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016 a daeth i rym ar 21 Mai 2016 ac mae'n cyd-fynd â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i hyrwyddo defnydd cynaliadwy, rheolaeth a datblygu ar adnoddau Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol sy'n darparu asesiad o adnoddau naturiol ac yn ystyried i ba raddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Bydd CNC hefyd yn cynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol (Datganiadau Ardal) i helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol ac yn nodi sut yr eir i'r afael â'r rhain. Bydd unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI yn cael eu hystyried ymhellach yn ôl yr angen.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau pwysig i'r ddwy brif ddeddf DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol: Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhedredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Ddeddf yn rhoi

amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol. Er i rai o fesurau'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mai 2016, bydd angen rhagor o is-ddeddfwriaeth neu baratodau eraill ar y mwyafrif cyn iddynt ddod i rym yn ddiweddarach yn 2017 neu yn 2018. Bydd unrhyw oblygiadau i'r CDLI yn cael eu hystyried ymhellach yn ôl yr angen.

Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac atal niweidiau iechyd y gellir eu hosgoi. Mae sawl un o'r newidiadau perthnasol yn y Ddeddf yn cynnwys llunio strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gorbwysedd a gofyniad i wneud Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ar benderfyniadau allweddol.

Addasiadau i'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018)

Ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn cwbl ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ym mis Rhagfyr 2018. Mae hwn wedi'i ail-ddrafftio fel bod y saith nod llesiant a phum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'u hintegreiddio'n llawn i bolisi. Mae hefyd yn rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd ar lesiant ac yn darparu datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb.

Polisi Cynllunio Cymru, (Rhifyn 11, Chwefror 2021)

Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) ym mis Chwefror 2021. Mae hwn yn ddiweddariad ffeithiol i Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ac yn cynnig nifer o newidiadau i ystyried deddfwriaeth a chanllawiau newydd a gyhoeddwyd ers ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, yn enwedig y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, newidiadau polisi yn ymwneud â chyflenwad tir ar gyfer tai, Adeiladu Mannau Gwell a Chymru'r Dyfodol.

Polisi Cynllunio Cymru, (Rhifyn 12, Chwefror 2024)

Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) ym mis Chwefror 2024. Mae hwn yn ddiweddariad ffeithiol i Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) a chynigiodd nifer o newidiadau er mwyn rhoi cyfrif am ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd a gyhoeddwyd ers ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021, yn enwedig diweddariad i bennod 6, sy'n cyflwyno pwyslais cryfach ar ddefnyddio dull rhagweithiol o ymdrin â seilwaith

gwyrdd, rhoi mwy o eglurder ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy gymhwyso dull fesul cam ac ymagwedd gryfach o ymdrin â gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAu).

Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau)

Diweddarwyd NCT 12 (TAN 12) Dylunio a Chanllawiau ar Ddadansoddi Cyd-destun Safleoedd ym mis Mawrth 2016, NCT 4 (TAN 4) Datblygu Manwerthu a Masnachol ym mis Tachwedd 2016 ac NCT 20 (TAN 20) Cynllunio a'r Gymraeg ym mis Hydref 2017. Yn ogystal, cyhoeddwyd NCT 24 newydd Yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Hydref 2017 a ddisodlodd Gylchlythyrau blaenorol y Swyddfa Gymreig ar y mater hwn. Darperir goblygiadau posibl y newidiadau i'r NCTau hyn ar gyfer y CDLI yn yr adran dadansoddi polisi berthnasol.

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol Cymru'r Dyfodol ar 24 Chwefror 2021. Mae'r ddogfen hon yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhan allweddol o'r system cynlluniau datblygu yng Nghymru ac mae ar frig yr hierarchaeth cynlluniau datblygu. Mae'n cynnig fframwaith ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd ac mae'n ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch o ran yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Adeiladu Lleodedd Gwell

Mae'r canllaw hwn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i allu gweithredu yn y cyfnod adfer yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r canllawiau'n rhoi'r system gynllunio yn ganolog wrth ystyried materion adeiladu a'r amgylchedd naturiol sydd wedi codi yn sgil y pandemig. Dylid darllen y canllawiau ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru ac mae'n ceisio cyfeirio at y polisiau a'r arfau cynllunio allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru y dylid eu defnyddio er mwyn helpu i adfer o'r pandemig yng Nghymru.

Y Cyd-destun Rhanbarthol

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig

Nodir de-ddwyrain Cymru fel dinas-ranbarth newydd yng Nghymru, sy'n cwmpasu Awdurdodau Lleol Caerdydd a de-ddwyrain Cymru. Fel y nodir yn yr adroddiad 'Sbarduno Economi Cymru'1, bwriad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw annog y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill o fewn ei ffiniau i weithio gyda'i gilydd a chydweithio ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae bwrdd pontio wedi'i sefydlu er ei bod yn gynnwys o ran Cynnydd ac ar hyn o bryd nid yw'r canlyniadau posibl ar gyfer y CDLI yn glir. Mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas-Ranbarth yn parhau i weithio ar gais Bargaen Ddinesig i ariannu prosiectau sydd â'r nod o hybu pa mor

gystadleuol fydd y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Gwerth ei nodi, fe lofnodwyd dogfen y Fargen Ddinesig gan y 10 arweinydd awdurdod lleol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a'r Prif Weinidog ym mis Mawrth 2016. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cynnig y Fargen Ddinesig ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI mewn AMBau dilynol lle y bo'n briodol.

Y Cyd-destun Lleol

Cyflawni Caerdydd Gryfach, Decach a Gwyrddach

Mae hyn yn gosod ger bron weledigaeth y Cyngor ar gyfer y ddinas dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dri prif faes:

Caerdydd Gryfach: Denu buddsoddiad a busnesau newydd i'r ddinas, hybu cynhyrchiant economaidd, creu swyddi o ansawdd da yn sectorau gwerth uchel a sylfaenol Caerdydd, a chryfhau ein gwydnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd a bygythiadau amgylcheddol cysylltiedig.

Caerdydd Decach: Darparu addysg, hyfforddiant, gwasanaethau i mewn i waith a gwasanaethau cymdeithasol rhagorol, yn ogystal â chysylltedd trafnidiaeth, i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu elwa ar dwf Caerdydd a'r cyfleoedd newydd mae hynny'n eu creu.

Caerdydd Wyrddach: Darparu rhwydwaith cadarn o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan wneud Caerdydd yn 'ddinas 15 munud', cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella bioamrywiaeth leol, gan sicrhau bod twf yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030.

Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2023-2026 – Cyflawni Caerdydd - Gryfach, Tecach, Gwyrddach

Yn gosod gweledigaeth ger bron i Gaerdydd o dan yr Amcanion Llesiant canlynol: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu i fyny; Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn; Cefnogi pobl allan o dlodi; Cymunedau diogel, hyderus a grymus; Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru; Caerdydd Un Blaned; Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Cynllun Llesiant Caerdydd 2023-2028

O dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol.

Ar ôl ymgymryd ag asesiad Llesiant Lleol i ddeall cryfderau a heriau'r ddinas, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC) wedi llunio Cynllun Llesiant Lleol – cynllun 5 mlynedd i ymateb i'r materion a godwyd.

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi blaenoriaethau'r BGC o ran camau gweithredu, gan ganolbwyntio ar y meysydd cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus sydd yn eu hanfod yn galw am weithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Amcanion Llesiant, blaenoriaethau lefel uchel y mae BGC Caerdydd wedi eu nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Ymrwymadau', neu gamau ymarferol y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf.

Strategaeth Caerdydd Ddwieithog

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor yn gweithredu strategaeth bum mlynedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r adolygiad cyntaf i'r strategaeth yn rhedeg o 2022 i 2027 ac yn cynnwys targed i gynyddu nifer a chanran siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg yng Nghaerdydd i sicrhau bod Caerdydd yn chwarae ei rhan wrth gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Yn 2020 cyhoeddodd y Cyngor strategaeth bedair blynedd newydd ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol statudol ar gyfer 2020-2024 a'r pethau y byddwn yn eu gwneud i'w cyflawni. Cytunwyd ar bedwar Amcan Cydraddoldeb newydd ar y cyd â dinasyddion lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Yr Amcanion Cydraddoldeb hyn yw datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwch anghydraddoldeb Caerdydd; Arwain y ffordd mewn cydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt; Caerdydd sy'n hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld â neu'n gweithio yn y ddinas; Adeiladu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol.

Papur Gwyn Trafnidiaeth

Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd yn gosod cynllun 10 mlynedd uchelgeisiol ger bron i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd yr aer ym mhrifddinas Cymru. Mae'r Papur Gwyn yn rhestru cyfres o broiectau a allai chwyldroi dewisiadau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd a'r rhanbarth, gan gynnwys:

- Ehangu'r cynlluniau Metro presennol i gynnig mwy o lwybrau tram/trên a gorsafoedd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth
- Cyflwyno gwasanaethau Bws Cludiant Cyflym newydd a safleoedd Parcio a Theithio.
- Gwneud teithio ar fws yn sylweddol ratach
- Darparu llwybrau beicio a cherdded mwy diogel
- Cynnig dewisiadau teithio go iawn i annog pobl allan o'u ceir ac ar i dtrafnidiaeth gyhoeddus.

Cynllun Aer Glân

Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r pryderon am effeithiau ansawdd aer ac yn cydnabod nad oes "lefel ddiogel" ddiffiniedig wrth ddisgrifio lefelau ansawdd aer. Mae

pryderon diweddar ynghylch iechyd y cyhoedd wedi canolbwyntio ar lefelau nitrogen deuocsid (NO₂) uwch. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau lefelau mor isel ag sy'n ymarferol bosib trwy ddangos lefelau y tu hwnt i'r amcanion blynyddol a bennwyd ar gyfer NO₂ a osodwyd ar 40µg/m³.

Er mwyn gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd, mae angen cymryd camau ar draws y ddinas gyfan. O ganlyniad mae'r Cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Cynllun Aer Glân a wnaed er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfreithiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018. Roedd y cyfarwyddyd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatblygu Cynllun i fynd i'r afael â phryderon ansawdd aer gan y rhagwelwyd y byddai nifer o ffyrdd yng Nghaerdydd yn uwch na'r terfynau cyfreithiol ar gyfer NO₂ heibio i 2021 os na chymerid unrhyw gamau ychwanegol.

Cymeradwywyd cynllun y Cyngor a chyllid o tua £20M yn llawn gan Weinidogion Cymru ddiwedd Rhagfyr 2019, a bydd y Cynllun hwn yn gweithredu nifer o fesurau i leihau lefelau NO₂ ar draws Caerdydd ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithredu Bysiau Trydan – 36 Bws Trydan i'w gweithredu ar nifer o lwybrau yng Nghanol y Ddinas;
- Rhaglen Ôl-Ffitio Bysiau i lanhau bysiau hŷn sy'n llygru;
- Polisi Trwyddedu Tacsis i roi trwyddedau newydd yn unig i gerbydau sy'n cydymffurfio â'r safonau allyriadau diweddaraf;
- Gwelliannau Cludiant i Ganol y Ddinas; a
- Mesurau Teithio Llesol Pellach

Aseswyd y mesurau hyn nid yn unig i sicrhau y cydymffurfir â lefelau cyfreithiol ar gyfer NO₂ erbyn diwedd 2021, ond hefyd er mwyn sicrhau bod lefelau ar draws y Ddinas yn cael eu lleihau ymhellach er mwyn diogelu a gwella iechyd trigolion.

Strategaeth Heneiddio'n Dda 2022 i 2027

Nod Strategaeth Heneiddio'n Dda 2022 i 2027 yw cefnogi pobl hŷn yng Nghaerdydd i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau. Nodau allweddol y Strategaeth yw:

- Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini a chysylltu mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn
- Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel
- Cefnogi gofalwyr anffurfiol a gwerthfawrogi eu rôl
- Sicrhau bod ein gwasanaethau'n bodloni anghenion y rhai mwyaf agored i niwed
- Moderneiddio ein gwasanaethau'n rhagweithiol

Strategaeth Economaidd y Cyngor Adeiladu Mwy o Gartrefi a Gwell Swyddi

Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynnwys 3 rhan – strategaeth ofodol, strategaeth ddiwydiannol a themâu sylfaenol i gefnogi'r strategaeth ac mae'n nodi nifer o flaenoriaethau a phrosiectau sydd â'r nod o gyflawni nodau'r Cyngor ar gyfer yr economi dros y 10 mlynedd nesaf gan gynnwys: creu 30,000 o swyddi ychwanegol ar

gyfer y ddinas-ranbarth; creu clwstwr busnes masnachol sylweddol cyntaf Cymru yn y Sgwâr Canolog, y Cei Canolog ac yn Sgwâr Callaghan; sefydlu Bae Caerdydd fel cyrchfan ymwelwyr trefol blaenllaw yn y Deyrnas Gyfunol; rhoi Caerdydd wrth wraidd sector Creadigol a Digidol y DG; lleoli Caerdydd fel canolfan genedlaethol ar gyfer Reg-Tech (rheoli prosesau rheoliadol y diwydiant ariannol trwy dechnoleg) fel rhan o'i chlwstwr ariannol/technegol (fin-tech) a seiberddiogelwch; cryfhau lle dinas-ranbarth Caerdydd fel canolbwynt gweithgynhyrchu uwch yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar led-ddargludyddion cyfansawdd a gwyddorau bywyd; cefnogi cymunedau ac ardaloedd y ddinas i fanteisio ar dwf y ddinas; sefydlu llywodraethiant dinas-ranbarth cryfach sy'n cyflawni ar gyfer Cymru.

Caerdydd 2030 - Gweledigaeth Ddeng Mlynedd ar gyfer Prifddinas Dysg a Chyfle

Cafodd y strategaeth hon ei lansio yn Hydref 2019 ac mae'n cynnwys nod o gyfoethogi a datblygu'r ystâd addysg er mwyn ateb newidiadau demograffig a chymdeithasol y ddinas. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymadau i gyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan gynnwys ysgolion newydd/wedi eu hail-godi i adlewyrchu twf y boblogaeth a datblygiad y ddinas drwy'r CDLI.

Strategaeth Adfer Caerdydd

Mewn ymateb i'r problemau yn sgil y pandemig mae'r Cyngor wedi paratoi strategaeth sy'n amlinellu'r hyn sy'n ofynnol yn ystod cyfnod adfer Covid-19 i sicrhau bod canol y ddinas, a chanolfannau lleol ac ardal ehangach, yn cefnogi busnesau lleol, manwerthu a'r ystod ehangach o weithgarwch cymdeithasol a hamdden cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chanol dinas Caerdydd yn llawn.

Mae'r strategaeth yn nodi ymyriadau hanfodol ar gyfer creu canol dinas diogel ac yn nodi camau gweithredu allweddol ar lefel dinas gyfan a fydd yn galluogi ymagwedd strategol integredig ar draws y ddinas, yn seiliedig ar gadw pellter cymdeithasol a sicrhau diogelwch pobl tra bod angen cadw pellter cymdeithasol. Bydd gwybodaeth a chyhoeddusrwydd wedi'u targedu yn cyd-fynd â chyflwyno'r ymyriadau hyn.

Mae'r strategaeth yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Canol Dinas Diogel – Er mwyn cefnogi tair elfen allweddol o weithgarwch – cyflogaeth, manwerthu a lletygarwch mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun rheoli gweithredol ar gyfer canol y ddinas sy'n nodi mesurau i hwyluso gofynion cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ciwio, llwybrau ar gyfer cylchredeg/symud, gofod gorlifo a gwybodaeth, gan gynnwys arwyddion a llysgenhadon stryd. Mae'n amlinellu dull o hwyluso digwyddiadau a gweithgareddau, a fydd yn denu defnyddwyr yn ôl i ganol y ddinas.

Dinas Ddiogel wedi'i Chysylltu - Mae'r mesurau'n cynnwys pecyn o ddiogelwch a gwyrddu mewn canolfannau lleol a chanolfannau ardal megis lledu palmentydd, llwybrau beicio, cyfyngiadau cyflymder a mesurau mwy sylweddol lle y bo'n briodol, gyda chynllun peilot ar Heol Wellfield. Bydd lleoliadau allweddol eraill fel parciau a phrifysgolion yn cael eu nodi a bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i sicrhau cadw pellter cymdeithasol a mynediad effeithiol.

Yn ogystal, bydd mesurau sydd eu hangen ar frys i liniaru colli capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys cynlluniau cerdded a beicio, mesurau diogelwch (er enghraifft, lledu palmentydd), cynlluniau blaenoriaeth i fysiau ac ymgysylltu parhaus â gweithredwyr, megis Trafnidiaeth Cymru a Bws Caerdydd. Bydd capasiti parcio ychwanegol a chynlluniau 'parcio a phedlo/cerdded' hefyd yn cael eu harchwilio.

Bydd rhwydwaith beicio 'dros dro' systematig yn annog defnydd ychwanegol o'r modd ac yn darparu cysylltedd i ganol y ddinas, canolfannau lleol a chanolfannau trafniadaeth/galw. Bydd parcio beiciau ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Caerdydd Un Blaned

Mae Strategaeth Caerdydd Un Blaned yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan y Cyngor yn 2019. Mae'r Strategaeth yn cynnwys gweledigaeth sy'n:

- Nodi uchelgais 10 mlynedd y Cyngor i fod yn Garbon Niwtral yn ei weithgareddau ei hun;
- Galw ar y ddinas gyfan, yr holl ddinasyddion, ifanc a hŷn, ysgolion, partneriaid allweddol, cyflogwyr a rhanddeiliaid i weithio'n gadarnhaol gyda ni i ddatblygu Map Ffordd Dinas Gyfan a chynllun gweithredu ar gyfer Dinas garbon niwtral erbyn 2030;
- Nodi cyfleoedd a allai ail-fframio economi Caerdydd mewn modd sy'n wydn, yn gadarn ac yn hirdymor, gan sicrhau bod Caerdydd yn un o ddinasoedd gwyrdd pennaf y Deyrnas Gyfunol; a
- Diffinio'r rhaglenni a'r cyfleoedd uniongyrchol y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy ar frys.

Mae'r strategaeth yn dadansoddi cwmplas a graddfa'r her sy'n wynebu'r Cyngor a'r Ddinas, ac yn tynnu sylw hefyd at y cyfleoedd a allai godi o weithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â'r her hon. Mae hefyd yn amlinellu y cynnydd sylweddol a wnaed gennym i weithio ar ein ôl troed carbon ac yna'n cynnig ystod eang o gamau gweithredu uniongyrchol a phosibl a fydd yn creu sail i'n hymateb tymor hwy i'r argyfwng hinsawdd. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y strategaeth ddrafft a bydd hyn yn llywio cynllun gweithredu ymroddedig manwl.

Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

Gweithgarwch Economaidd

Dangosir data gweithgarwch economaidd allweddol ar gyfer Caerdydd a Chymru o ddyddiad sylfaen y CDLI yn 2006 i'r cyfnod monitro presennol yn y tablau isod. Mae'r data'n dangos bod Caerdydd wedi profi perfformiad economaidd gwell o ran y dangosyddion hyn gyda dangosyddion cyflogaeth, diweithdra ac enillion i gyd yn uwch na dyddiad sylfaen y CDLI yn 2006. Bydd y dangosyddion economaidd hyn yn cael eu hystyried mewn AMBau dilynol ac unrhyw oblygiadau posibl yn cael eu cofnodi.

Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 - Mawrth 2007	66.7%	69.1%
Ebrill 2007 - Mawrth 2008	68.9%	69.3%
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	69.5%	68.4%
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	68.15	66.6%
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	64.7%	66.4%
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	65.5%	66.7%
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	65.5%	67.6%
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	69.4%	69.5%
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	65.6%	69.3%
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	69.1%	71.1%
Ebrill 2016 - Mawrth 2017	69.1%	71.4%
Ebrill 2017 - Mawrth 2018	72.0%	72.7%
Ebrill 2018 - Mawrth 2019	79.0%	76.7%
Ebrill 2019 - Mawrth 2020	74.8%	73.7%
Ebrill 2020 - Mawrth 2021	74.5%	72.8%
Ebrill 2021 - Mawrth 2022	74.6%	73.6%
Ebrill 2022 - Mawrth 2023	70.8%	73.0%
Ebrill 2023 - Mawrth 2024	76.5%	73.5%

Ffynhonnell: [Nomis - Official Census and Labour Market Statistics \(nomisweb.co.uk\)](https://nomisweb.co.uk)

Economaidd Weithgar – Di-waith

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 - Mawrth 2007	6.2%	5.3%
Ebrill 2007 - Mawrth 2008	6.1%	5.6%
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	6.9%	6.8%
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	8.7%	8.3%
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	8.9%	8.4%
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	9.1%	8.4%
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	10%	8.3%
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	8.1%	7.4%
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	8.4%	6.8%
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	6.7%	5.4%
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	4.8%	4.4%
Ebrill 2017 – Mawrth 2018	6.0%	4.9%
Ebrill 2018 – Mawrth 2020	4.6%	4.5%
Ebrill 2019 – Mawrth 2020	3.8%	3.7%
Ebrill 2020 - Mawrth 2021	3.8%	3.7%
Ebrill 2021 - Mawrth 2022	4.6%	3.8%
Ebrill 2022 - Mawrth 2023	3.3%	3.3%
Ebrill 2023 - Mawrth 2024	4.4%	3.5%

Ffynhonnell: [Nomis - Official Census and Labour Market Statistics \(nomisweb.co.uk\)](https://nomisweb.co.uk)

Cyflog Wythnosol Gros Gweithwyr Llawn Amser (Enillion yn ôl Preswylfa)

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 - Mawrth 2007	£442.2	£414.8
Ebrill 2007 - Mawrth 2008	£453.2	£424.8
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	£483.0	£444.6
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	£499.3	£456.2
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	£498.5	£455.1
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	£495.4	£454.9
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	£503.6	£475.3
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	£496.4	£480.0
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	£519.0	£487.6
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	£534.4	£499.2
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	£538.5	£505.9
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	£534.4	£499.2
Ebrill 2017 – Mawrth 2018	£538.5	£505.9
Ebrill 2018 – Mawrth 2020	£536.7	£518.6
Ebrill 2019 – Mawrth 2020	£582.6	£540.7
Ebrill 2020 - Mawrth 2021	£543.6	£541.7
Ebrill 2021 - Mawrth 2022	£574.9	£570.6
Ebrill 2022 - Mawrth 2023	£627.0	£603.5
Ebrill 2023 - Mawrth 2024	£664.6	£636.1

Ffynhonnell: [Nomis - Official Census and Labour Market Statistics \(nomisweb.co.uk\)](https://nomisweb.co.uk)

Prisiau Tai

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae data'r Gofrestrfa Dir yn dangos bod prisiau tai cyfartalog yng Nghaerdydd wedi cynyddu dros y cyfnod monitro presennol. Roedd prisiau cyfartalog fis Mehefin 2024 ar £270,192 yn uwch na phris gwaelodlin 2006 (£154,183). Mae'r data isod yn dangos bod prisiau tai wedi codi 75% yn ystod y cyfnod monitro.

